


The message is displayed incorrectly? View this email online.



## Cylchlythyr Hydref Hydref 2022

### Annwyl Landlord / Asiant,

Darllenwch ymlaen am ddatblygiadau diweddaraf ar draws y Sector Rhentu Preifat yng Nghymru, gan gynnwys sut mae Rhentu Doeth Cymru yn eich helpu i baratoï'n effeithiol ar gyfer newidiadau Ddeddf Rhentu Cartrefi, yn ogystal â'r cymorth costau byw sydd ar gael i denantiaid sy'n teimlo'r straen ar cyllideb eu haelwyd.

Mae diweddariadau eraill yn y rhifyn hwn yn cynnwys:

- **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:** Cyfnodau rhybudd contractau wedi'u trosi
- **#CadwLlygad:** Ymgyrch i atal camfanteisio ar blant
- **Rhentu Doeth Cymru:** Eich amodau trwydded
- **Digwyddiadau sector sydd i ddod**



## Deddf Rhentu Cartrefi: Ydych chi'n barod?

O 1 Rhagfyr 2022 mae tenantiaethau yng Nghymru'n newid.

Os oes gennych gwestiynau am y Ddeddf a'r hyn mae'r newidiadau yn ei olygu i chi, mae ein cwrs hyfforddi Deddf Rhentu Cartrefi yn lle gwyh i ddechrau.

Yn llawn yr holl ganllawiau ac offer perthnasol i helpu i sicrhau trosglwyddiad hwylus, rydym yn cynnig tri opsiwn hyfforddi, gan ddarparu ar gyfer anghenion pob landlord ac asiant.

### Mae'r opsiynau yn cynnwys

#### 1. Hyfforddiant ar-lein sydd ar gael am ddim

Hyfforddiant ar alw ar gael trwy eich cyfrif Rhentu Doeth Cymru.

#### 2. Hyfforddiant ystafell ddosbarth

Dan arweiniad arbenigwyr diwydiant ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.

#### 3. Ystafell ddosbaerth rithiwr

Holl fanteision hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth yng nghysur eich amgylchedd eich hun.

Bydd rhaid i bob landlord ac asiant wneud newidiadau i'w tenantiaethau o 1 Rhagfyr 2022 ac mae rhwymedigaethau newydd ar ddot mewn perthynas ag amodau eiddo, ffurflenni safonol, a phrosesau a gweithdrefnau.

Mae canlyniadau sylweddol hefyd i gael pethau'n anghywir, gan gynnwys cosbau ariannol. Mae o fudd i chi wneud yn siŵr eich bod yn deall y newidiadau ac yn

paratoi ar eu cyfer mewn da bryd.

Archebu hyfforddiant

Newyddion Rhentu Cartrefi

*Eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant? Lawrlwythwch gynnwys ein cwrs Rhentu Cartrefi a'r dogfennau ategol [yma](#)*

## | Ymgynghoriad Rhentu Cartrefi



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cyfnod Rhybudd Cyn Troi Allan – Dweud Eich Dweud

Ddydd Mawrth 20 Medi, cyhoeddodd Julie James, y Gweinidog dros y Newid yn yr Hinsawdd, ymgynghoriad yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid estyn y cyfnod rhybudd o ddau i chwe mis ar gyfer tenantiaethau presennol sy'n troi'n contractau meddiannaeth dan y Ddeddf Rhentu Cartrefi.

Os bydd y cynnig yn parhau'n ddigyfnewid, bydd y newid yn dod i rym ar 1 Mehefin 2023, chwe mis ar ôl i'r Ddeddf newydd ddod i rym. Byddai hyn yn caniatáu digon o amser i landlordiaid ac eraill wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i baratoi ar gyfer ei gweithredu.

Mae gennych tan ddydd Llun 24 Hydref i ymateb. Gweler yr ymgynghoriad [yma](#).

Ymateb i'r ymgynghoriad

## | Cymorth i denantiaid



## Costau byw: Cymorth i denantiaid

Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol y gallent fod â hawl i fudd-daliadau a allai gynnig y cymorth sydd ei angen arnynt. Gall [Advicelink Cymru](#) helpu pobl i wirio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo, ac maent yn cynnig gwasaneth rhadffôn ar 0808 250 5700.

Gall tenantiaid hefyd gysylltu â Llinell Gymorth Dyledion y Sector Tai Rhentu Preifat am gyngor ar wneud y mwyaf o incwm, rheoli dyled, ac i dderbyn cymorth. Gall tenantiaid cael fyndediad i'r gwasanaeth trwy galw 0808 278 7920. Mae'r ddwy linell ar agor 9am - 5pm ac eithrio gwyliau banc

Dysgu mwy

## | Ymgyrch ymwybyddiaeth trosedd



## #CadwLlygad – Atal camfanteisio ar blant

Gallai cam-drin a cham-fanteisio ar blant fod yn digwydd yn eich eiddo rhent. Gallai hyn gynnwys plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, ei gaethiwo fel gwas neu ei orfodi i werthu cyffuriau o eiddo sy'n cael ei feddiannu gan droseddwr.

Er mwyn diogelu plant rhag cam-drin erchyll a thrawma gydol oes mae Cymdeithas y Plant yn gofyn i bawb #CadwLlygad. Fel landlord neu asiant gosod, rydych mewn sefyllfa unigryw i adnabod yr arwyddion a rhoi gwybod amdanynt.

Os nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, efallai nad ydyw. Peidiwch ag aros – rhowch wybod i'r heddlu ar 101, neu 999 mewn argyfwng. Os nad ydych yn siŵr, ffoniwch linell gymorth yr NSPCC ar 0808 800 5000 i gael cyngor.

Mae rhai o'r arwyddion i gadw llygad amdanynt yn cynnwys:

- Plant ar eu pennau eu hunain yn ymweld â thŷ lle mai dim ond oedolion sy'n byw ynddo
- Pobl ifanc yn ymddangos yn bryderus, yn ofnus neu'n flin, yn dangos arwyddion o esgeulustod neu mae ganddynt ymddygiadau/anafiadau eraill sy'n gwneud i chi boeni
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ag eiddo
- Mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn eiddo
- Heb weld y preswlydd am gyfnodau hir
- Cerbydau anghyfarwydd yn yr eiddo

I gael gwybod mwy am yr hyn y gallwch ei wneud a'r hyn i gadw llygad amdano, [cliciwch yma](#).

## | Gofynion Rhentu Doeth Cymru



## Eich Amodau Trwydded

Rhoddir pob trwydded gyda set gynhwysfawr o amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw er mwyn osgoi'r perygl o'ch trwydded yn cael ei dirymu. Ceir amodau safonol trwyddedau [yma](#). Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff mân newidiadau eu gwneud fesul achos.

Yn llawer rhy aml, mae pobl yn ffeilio dogfennau heb gymryd yr amser i ddarllen ac ystyried y manylion. Mae amodau trwyddedau wedi newid dros amser ac yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am sut y dylech reoli'ch eiddo rhent yn iawn. Er enghraifft: yn achos trwyddedau a gyhoeddwyd ar ôl 1 Gorffennaf 2020, mae angen i drwyddedeion sicrhau bod ganddynt drefniadau rheoli cadarn ar waith.

### Beth mae'r amod rheoli cadarn yn ei olygu?

1. Bod contractwyr â chymwysterau addas sy'n gymwys yn eu maes arbenigedd ar gael i ddelio ag argyfyngau pan fyddant yn codi
2. Yr ymwelir â'r eiddo rhent y mae gennych gyfrifoldebau rheoli ar ei gyfer ar adegau priodol; sef o leiaf:

**a)** Yn flynyddol ar gyfer tenantiaethau annedd sengl, a thai a rennir ar un denantiaeth

**b)** Bob 6 mis ar gyfer tŷ amlfeddiannaeth, a thai a rennir ar denantiaethau ar wahân

3. Yr ymdrinnir â'r holl faterion sy'n codi rhwng ymweliadau rheolaidd yn briodol, a
4. Bod ymweliadau ag eiddo'n cael eu dogfennu a bod copiau o'r dogfennau'n cael eu cadw.

Sicrhewch eich bod yn cyflawni rhwymedigaethau eich trwydded.

Gwiriwch eich amodau trwydded



## Chwilio am ddigwyddiadau yn eich ardal leol?

Gweler rhestr lawn o Fforymau Landlordiaid, Cynadleddau Cenedlaethol a mwy trwy ymweld â'n tudalen digwyddiadau [yma](#).

Gweler digwyddiadau

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales  
Copyright © 2015-2022

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales  
Blwch PO / PO Box 1106 Caerdydd /  
Cardiff CF11 1UA

[rhentudoeth.llyw.cymru](http://rhentudoeth.llyw.cymru)  
[rentsmart.gov.uk](http://rentsmart.gov.uk)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rydych wedi derbyn y cylchlythyr hwn gan eich bod wedi nodi ar eich cyfrif eich bod yn hapus i dderbyn newyddion gennym ni a'n partneriaid.

Os hoffech newid eich opsiynau cyswllt neu iaith, gallwch wneud drwy fewn gofnodi i'ch cyfrif [yma](#).